Dr Ruth Hussey - Dirprwy Gadeirydd Bwrdd yr ASB

Yn amlinellu hanes proffesiynol aelodau ein bwrdd ac yn rhoi manylion unrhyw ddiddordebau busnes sydd ganddynt er mwyn sicrhau tryloywder.

Bu i Ruth ymddeol fel Prif Swyddog Meddygol Cymru yn 2016 ar ôl bron i bedair blynedd yn y swydd.

Yn yr amser hwnnw, cefnogodd bolisi ar:

- iechyd y cyhoedd
- ansawdd a diogelwch
- gofal sylfaenol
- ymchwil a datblygiad
- strategaeth iechyd gyda ffocws ar ofal iechyd darbodus

Cafodd ei geni a'i magu yng Ngogledd Cymru, a datblygodd ei gyrfa yn Lloegr. Bu'n hyfforddi fel meddyg teulu yn wreiddiol. Gweithiodd yn y byd academaidd, fel Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn Lerpwl i ddechrau ac yna mewn swyddi strategol yng ngogledd orllewin Lloegr ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Adran Iechyd. Cyn ymuno â Llywodraeth Cymru, roedd yn rhan o Dîm Pontio Iechyd y Cyhoedd yn yr Adran Iechyd, Whitehall.

Yn ddiweddar, bu Ruth yn cadeirio Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a bellach mae hi'n Gomisiynydd ar Gomisiwn Lancet/LSE ar 'Ddyfodol y GIG'.

Mae hi wedi bod yn Ddirprwy Gadeirydd yr ASB ers 1 Gorffennaf 2020. Mae hi hefyd yn aelod o'r Bwrdd Anghydraddoldebau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Lloegr ac yn aelod o'r Bwrdd Cynghori ar gyfer Ysgol Ymchwil Iechyd y Cyhoedd, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd. Mae hi'n Athro Anrhydeddus ym Mhrifysgol Lerpwl ac mae hi wedi cael gwobrau gan Brifysgolion eraill yng Nghymru a Lloegr. Daeth yn Llywodraethwr y Sefydliad Iechyd ym mis Chwefror 2018 ac mae'n aelod o Gr?p Cynghori Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Hi yw Llywydd Anrhydeddus Cerddwyr Cymru yng ngogledd Cymru ac mae hi'n aelod o Bwyllgor Gweithredol Cyngor Cymru. Mae Ruth yn Gadeirydd y Bwrdd Cynghori ar gyfer yr Arolygiaeth Gofal yng Nghymru ac yn Ddirprwy Lefftenant Glannau Mersi.

Mae ei diddordeb o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chynnwys cymunedau yn eu hiechyd a'u lles wedi bod yn sail i'w gwaith.

Buddiannau Personol

- Rôl broffesiynol ym maes Iechyd y Cyhoedd – Mae Ruth ar gofrestr y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Ffermio – Mae ei brawd yn berchen ar dir yng Ngogledd Cymru ac mae ganddo denantiaid sy'n ffermwyr
- Mae ei modryb a'i chefndryd yn ffermio yn y gogledd
- GIG – Mae ei g?r yn feddyg teulu yn Lerpwl

Ymgyngoriaethau a/neu gyflogaeth uniongyrchol

- Darlithio a gwasanaethau cynghori proffesiynol - gweithgareddau ad hoc
- Aelod o'r Bwrdd Cynghori, Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR), Ysgol Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
- Aelod, Bwrdd Anghydraddoldebau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Lloegr
- Comisiynydd, Comisiwn LSE/Lancet ar 'Ddyfodol y GIG'
- Aelod o Gr?p Cynghori, Canolfan Cymru ar gyfer Polisi Cyhoeddus
- Aelod o Gr?p Cynghori Rhaglenni, canolfan y DU ar gyfer tystiolaeth ymchwil mewn Gofal Cymdeithasol (ESRC a'r Sefydliad Iechyd)
- Gweithio dros dro i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol nes 22 Mai 2020

Gwaith am ffi

- Dim
- Yn flaenorol - Cyngor iechyd i un o Ynysoedd y Sianel, a Chadeirydd adolygiad seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Cyfranddaliadau

- Ymddiriedolaethau Uned yn unig

Clybiau a sefydliadau eraill

- Sefydliad Coleg Lerpwl – Aelod
- Cymdeithas y Cerddwyr (Ramblers Cymru) – Aelod a Llywydd Anrhydeddus ar gyfer y gogledd, wedi'i chyfethol i bwyllgor Gweithredol Cymru
- Cymdeithas Rhandir Harthill
- Cydweithredu anffurfiol â gweithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd (rhwydwaith Harnessing Health)
- Aelod o Gymdeithas Feddygol Prydain (BMA)
- Aelod o The Athenaeum

Buddiannau personol eraill

- Dim

Buddiannau nad ydynt yn rhai personol

Cymrodoriaethau

- Swyddi academaidd anrhydeddus mewn nifer o brifysgolion (Metropolitan Manceinion, John Moores Lerpwl, Lerpwl, Abertawe a Bangor)
- Cymrawd Coleg Brenhinol y Meddygon, a Chyfadran Iechyd y Cyhoedd

Cymorth anuniogyrchol

- Dim

Ymddiriedolaethau

- Llywodraethwr, Y Sefydliad Iechyd
- The Reader Organisation

Tir ac eiddo

- Mae ei brawd yn berchen ar dir yn y gogledd ac mae ganddo ffermwyr sy'n denantiaid. Mae ei modryb a'i chefndryd yn ffermio yn y gogledd
- Yn berchen ar ei chartref ei hun yn Lerpwl

Penodiadau cyhoeddus eraill

- Dirprwy Lefftenant Glannau Mersi

Buddiannau eraill nad ydynt yn rhai personol

- Dim